**Diogelu Gwent**
**Gwent Safeguarding**

# Archwiliadau Meddygol

# Cam-drin Plant yn Rhywiol




## 1 Archwiliadau Meddygol Cam-drin Plant yn Rhywiol

Pan ddatgelir digwyddiad o gam-drin plant yn rhywiol (CSA) neu os amheuir digwyddiad o gam-drin plant gall nifer o fuddion ddeillio o archwiliadau meddygol. Mae angen i weithwyr proffesiynol feddu ar y wybodaeth a'r hyder i rannu gwybodaeth a chyngor gyda phlant a theuluoedd ymlaen llaw. Dylid ystyried gwneud archwiliad meddygol ym mhob achos o gam-drin rhywiol.

Gall archwiliadau meddygol nodi llawer o bethau gan gynnwys canfyddiadau fforensig a thystiolaeth. Mae'r archwiliad hefyd yn rhoi asesiad holistaidd o iechyd a lles plant, a gallant hefyd roi sylw i anghenion iechyd cyffredinol, meddyliol a rhywiol nad ydynt wedi'u diwallu; asesu risg (gan gynnwys hunan-niweidio a hunanladdiad) a rhoi adborth a sicrwydd gan weithwyr iechyd proffesiynol i blant a gofalwyr.

## 2 Beth sy'n digwydd mewn archwiliad meddygol?

Gall y dull o gynnal yr archwiliad amrywio yn ôl oedran y plentyn a pha mor ddiweddar y digwyddodd yr achos diwethaf o gam-drin; os yw'r CSA a ddatgelwyd wedi digwydd o fewn yr wythnos ddiwethaf, dylid trafod hyn gyda SARC Caerdydd er mwyn ystyried archwiliad meddygol CSA fforensig.  Cyn i'r plentyn gael ei weld, fel arfer mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol a'r atgyfeiriwr yn cyfnewid gwybodaeth, a rhoddir manylion am natur y pryderon neu'r honiad. Mae'r cyfnewid hwn yn aml yn digwydd wyneb yn wyneb os oes gweithiwr cymdeithasol neu heddwas gyda'r plentyn.

Cynhelir yr archwiliad gan weithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig a fydd yn sicrhau bod y plentyn yn deall beth fydd yn digwydd. Mae hyd ymgynghoriad ac archwiliad iechyd yn amrywio ond gall fod hyd at ddwy awr. Gall y plentyn atal yr arholiad unrhyw bryd neu gytuno i rai rhannau or archwiliad ac nid eraill.

## 3 Beth sy'n digwydd mewn archwiliad meddygol?

Mae'r archwiliad fel arfer yn dechrau gyda gwiriadau iechyd sylfaenol gan gynnwys taldra, pwysau, a chael golwg ar glustiau, gwddf a chroen y plentyn. Yn y rhan fwyaf o achosion nid oes angen i'r plentyn dynnu eu holl ddillad na gwisgo gŵn. Os yw'n well ganddynt, gallant dynnu un darn o ddillad ar y tro a'i wisgo eto cyn tynnu'r darn nesaf. Y cam nesaf yw'r archwiliad anogenhedlol. I wneud hyn yn haws, yn fwy cyfforddus ac yn fwy safonol, efallai y gofynnir i'r plentyn orwedd mewn ffordd arbennig; gall plant ifanc iawn gael eu harchwilio ar lin rhywun.

Yn ystod yr archwiliad anogenhedlol, ni fydd unrhyw beth yn cael ei fewnosod na'i 'roi y tu mewn' i blentyn ifanc. Bydd swabiau'n cael eu cymryd o'r ardal allanol. Efallai y bydd merched hŷn, sydd wedi cyrraedd y glasoed, yn cael swab bach neu flaen cathetr plastig meddal bach yn union y tu mewn i agoriad y wain, os ydyn nhw'n gallu ei oddef a dim ond os ydyn nhw'n rhoi caniatâd.

## 4 Beth sy'n digwydd mewn archwiliad meddygol?

Ymhlith merched hŷn**,** mewn rhai achosion acíwt, ystyrir defnyddio sbecwlwm, sef offeryn meddygol plastig y gellir ei roi y tu mewn i'r wain er mwyn cael golwg agosach a gwneud rhywfaint o samplu fforensig mewn achosion o gam-drin treiddiol yn y wain. Fodd bynnag, ni ddefnyddir hwn ar unrhyw gyfrif os byddant yn teimlo ei fod yn anghyfforddus neu os na fyddant am iddo gael ei ddefnyddio.

Nid yw bechgyn, ar unrhyw gyfrif, yn cael unrhyw swabiau wedi'u rhoi y tu mewn i'w pidyn. Er ei bod yn anghyffredin i unrhyw swabiau gael eu rhoi y tu mewn i'r anws, gellir ystyried hyn (ond dim ond os caiff ei ganiatáu a'i oddef) pan fydd amheuaeth neu honiad o gam-drin trwy'r anws.

## 5 Beth nesaf?

Bydd y plentyn a'u gofalwr yn cael cyngor a gwybodaeth am yr hyn fydd yn digwydd nesaf a byddant yn cael cyfle i ofyn cwestiynau. Gellir trefnu nifer o gysylltiadau dilynol, yn dibynnu ar anghenion y plentyn. Bydd y gweithiwr proffesiynol sy'n atgyfeirio fel arfer yn cael rhywfaint o adborth ar y diwrnod o ran canfyddiadau ac argymhellion. Gall hyn gael effaith ar eu hymchwiliadau a chamau diogelu, a gall gynnwys awgrymiadau ar gyfer brodyr a chwiorydd neu blant eraill

## 6 Chwalu Mythau

Mae ymchwil yn dangos bod archwiliadau meddygol ar gyfer CSA yn broses holistaidd a gallant fod o **fudd sylweddol** i blant, fel yr amlinellir yma https://www.csacentre.org.uk/app/uploads/2023/09/Medical-examinations-scoping-review.pdf t34-35.

**Nid** oes llawer o gefnogaeth i'r farn bod archwiliadau meddygol ar gyfer CSA eu hunain yn niweidiol i blant.  Mae tystiolaeth bresennol yn dangos bod y rhan fwyaf o blant yn dangos yr un lefel o ofn ag y byddent gyda mathau eraill o archwiliadau meddygol, ac mae'r ofn hwn yn lleihau yn ystod yr archwiliad.

Gellir rhannu'r daflen hon gyda phlant a phobl ifanc i helpu i egluro'r broses a rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau.  Ysbyty Nevill Hall Canllaw i Blant

## 7 Dnoddau

Mae'r ffilm hon, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i chynllunio i helpu gweithwyr proffesiynol o gefndiroedd aml-asiantaeth i gael gwell dealltwriaeth o rôl a phwrpas archwiliad meddygol mewn sefyllfaoedd lle mae achos o gam-drin plant yn rhywiol wedi'i ddatgelu neu lle mae amheuaeth o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae'n berthnasol i unrhyw leoliad lle gellir gweld plant am archwiliad meddygol ac mae'n berthnasol i achosion diweddar ac achosion nad ydynt yn ddiweddar o gam-drin plant yn rhywiol.

Deall archwiliadau meddygol ar gyfer pryderon sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol (Canolfan CSA) (youtube.com)